Cenn@d

EBRILL 20 2022 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 60

# Tystiolaeth Bedyddwyr Wcráin, Hwngari a Gwlad Pwyl

Ers dechrau'r rhyfel yn Wcráin bu'n galonogol clywed am y modd y mae Cristnogion yn y wlad a'r gwledydd cyfagos wedi ymateb mewn ffordd mor ymarferol i'r angen o'u cwmpas, gan barhau i addoli a gwasanaethu yng nghanol yr holl broblemau. Aeth Aled Davies ati i grynhoi ambell bwt o newyddion.

### Dathlu Sul y Blodau yn Eglwys y Bedyddwyr, Lviv

Wrth i Helle Liht, Ysgrifennydd Cyffredinol Cynorthwyol Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop (European Baptist Federation), ymweld ag Eglwys y Bedyddwyr yn Lviv, gwelodd arwyddion gobaith yn codi yng nghanol yr heriau.

Meddai Helle, yn dilyn ei hymweliad: 'Cafodd y gân "Mae cariad Duw yn fwy na'r cefnfor" ei chanu ag argyhoeddiad, a daeth y plant ynghyd i'r ysgol Sul am y tro cyntaf ers dechrau'r rhyfel. I'r cwestiwn a ofynnais iddynt, sef beth allwn ni ddiolch i Dduw amdano, fe atebon nhw: "Rydyn ni'n fyw, rydyn ni'n ddiogel, gallwn ni ymgynnull yn yr eglwys, ac mae Duw yn parhau i'n bendithio."

'Wrth i'r gweinidog wahodd pobol i weddïo mewn grwpiau bach, roedd sŵn gweddïau'n llenwi'r eglwys. Gweddïwyd dros lywodraeth Wcráin a thros y bobl sy'n gorfod gwneud penderfyniadau. Gweddïwn ninnau ar i eglwys Crist yn Wcráin fod yn gryf a dod â gogoniant i Dduw. Gweddïwn y bydd cyfiawnder a heddwch yn ennill yn y pen draw. Roedd yr eglwys yn llawn gobaith wrth i Roman Vecherkovskyi, Is-lywydd Undeb Bedyddwyr Wcráin, rannu neges yn tystio nad oes dim byd mwy grymus na chariad Duw (Eseia 40:25–31).'

### Dinistrio Eglwys Fedyddiedig Bethany yn Mariupol

A miliynau o bobl ledled Wcráin yn brwydro i fyw mewn gwlad sydd dan warchae, dinas Mariupol sydd wedi wynebu'r ymosodiadau mwyaf mileinig. Mae'r ddinas hardd hon ar arfordir gogleddol Môr Azov wedi dioddef bomio di-baid ers wythnosau. Mae adeilad Eglwys Bethany, lle ceir cynulleidfa weithgar sy'n enwog am ei gweinidogaeth gymdeithasol ac efengylaidd, bellach yn adfail, ond er gwaethaf y bomio a'r llosgi, erys y groes. Ac felly hefyd benderfyniad cadarn Bedyddwyr Wcráin i aros yn ffyddlon mewn gwasanaeth i Dduw a'u cyd-Gristnogion, hyd yn oed tra mae'r rhyfel yn fygythiad parhaus iddynt. Er colli'r adeilad, mae'r gynulleidfa sy'n weddill yn dal i gyfarfod i addoli a gwasanaethu.

### Cymorth i ffoaduriaid gan eglwysi mewn gwledydd cyfagos

Ers i ffoaduriaid ddechrau croesi'r ffin i wlad Pwyl, mae Eglwys Bedyddwyr Chelm yno wedi camu i'r adwy i gynnig cymorth ymarferol ac wedi croesawu dros 3,500 o ffoaduriaid o Wcráin i'w heglwys. Maent hefyd wedi troi warws cyfagos yn ganolfan i ddosbarthu bwyd a nwyddau, ac eisoes wedi anfon dros 300 tunnell o fwyd i'r ardaloedd dan warchae.

Yn Hwngari, mae Lagos a'i chriw wedi bod wrthi'n brysur yng nghegin Canolfan Balaton (canolfan Undeb Bedyddwyr Hwngari) yn paratoi prydau bwyd yn ddyddiol i ffoaduriaid. Mae'r ganolfan hon ger llyn Balaton erbyn hyn yn gartref dros dro i tua 70 o ferched a'u plant, ers iddyn nhw ffoi rhag y trais yn Wcráin. Roedd y ffoaduriaid hyn, pobl Roma o ardal yn Wcrain ger y ffin â Hwngari, yn cael trafferth i ddod o hyd i lety, gyda llawer o'r gymuned Romani yn cael eu gwrthod gan yr awdurdodau. Diolch i garedigion Canolfan Balaton am estyn croeso iddynt.

Mi fyddaf yn mynd i Balaton yn ystod mis Mai, ac yn gobeithio cyfarfod rhai o'r arweinwyr hyn sy'n gweithio mor ddiwyd. Fe fydd mwy i'w rannu yn *Cenn@d* bryd hynny, gobeithio.




Eglwys Fedyddiedig Bethany yn Mariupol cyn y dinistr



Eglwys Fedyddiedig Bethany yn Mariupol wedi'r bomio diweddar



Eglwys Bedyddwyr Chelm yn defnyddio'r adeilad i letya ffoaduriaid



Dathlu Sul y Blodau yn Eglwys y Bedyddwyr, Lviv

Mae natur yn cyfri – ac yn cael ei gyfrif
Tudalen 2

Bywyd ar y stad yn Vauxhall
Tudalen 3

Ar ba dîm?
Gan Cynan Llwyd, Pennaeth Tearfund Cymru
Tudalen 6